Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 11eg Hydref, 2006 yn Oriel y Neuadd Ddinesig, Llandeilo am 8 .00pm

Presennol: Cyng Pam Steane Price, Y Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Dawn Wallace, Mr Roger Phillips Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol

Ymddiheuriadau : Cyng Edward Thomas

Cof 86/ Hydref / 06 Anfonebau i'w talu.

WCVA (gweinyddiaeth Medi)	£ 34.66
WCVA (cyflogai Medi)	£ 159.76
Advantage Business Supplies (byrddau)	£ 1721.61
Advantage Business supplies (cadeiriau)	£ 2238.14
Advantage Business Supplies (cwpwrdd)	£ 375.59
Yswiriant Zurich (atebolrwydd)	£ 3157.59
Yswiriant Zurich (Arddangosfa Tân Gwyllt)	£ 350.00

Cynigiodd y Cyng Pam Steane Price y dylid talu'r eitemau hyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 87/ Hydref / 06 Incwm a Dderbyniwyd Medi 2006

LLOG – CYFRIF CYNILO	£ 199.67
LLOG – CYFRIF CYFREDOL	£ 3.79

.

Cof 88 / Hydref / 06 Balansau'r Cyfrif

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (30.9.06)	£ 28,868.87
LTC CYFRIF CYNILO (27.9.06)	£ 34,837.33
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.9.06)	£ 2101.95
Sieciau na chyflwynwyd ar 30/9	£ 5053.11
Taliadau i'w gwneud (cytuno)	£ 21,104.23
Taliadau i'w gwneud (i'w hystyried)	£ 8,037.52
Cyfanswm	£ 34,194.86

Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn bod swm o £15,000 yn cael ei drosglwyddo i'r cyfrif cyfredol. Eiliwyd hyn gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

Cof 89 / Hydref / 06 Materion Ariannol Eraill

1. Mantolen Prosiect Neuadd y Sir

	INCWM	DIM
GWARIANT CSC Cynllunio (cynlluniau)		£ 120.00

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

CSC Cynllunio (rheoliadau)	£ 174.64	
Regan Norris (pensaer)	£ 2520.37	
Regan Norris (pensaer)	£ 538.11	
Regan Norris (pensaer)		£ 3651.81
Davis A Siggery	£21011.17	

2. Mantolen y Prosiect Treftadaeth

INCWM	Cyfanswm y Taliad Grant	£15,620.70
GWARIANT	Ymddiriedolaeth Arch Dyfed Cyf	£19308.00
	Greenbarnes Ltd	£ 1048.74
	Caron Promotions	£ 258.50
	Cyfanswm	**£ 20,615.24**
		(yn cynnwys TAW)
	Mantolen net	**£ 4994.54**

3. Adroddiad y Gyllideb Hydref 2006
Rhoddodd y Swyddog Cyllid adroddiad o fusnes ariannol y Cyngor.

4 Rhagolygon y Gyllideb ar gyfer y Tair Blynedd Nesaf.
Cyflwynodd y Swyddog Cyllid y rhagolygon presennol i'r Cyngor

Cof 90/ Hydref / 06 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Llythyr oddi wrth Dr Townsley Hughes o'r Ymddiriedolaeth Ddinesig.
   Ystyriwyd eu cais am gymorth ariannol gan y Cyngor er mwyn gallu cynnal arolwg o adeilad yr Hen Farchnad gyda'r bwriad posib o'i adfywio. Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn fod y pwyllgor yn argymell bod £400 yn cael ei roi tuag at gost yr arolwg gyda'r amod fod y Cyngor yn derbyn copi o ganfyddiadau'r adroddiad. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
2. Llythyr oddi wrth Archaeoleg Cambria yn gofyn i'r Cyngor a fyddent yn barod i dalu am y gost o osod bwrdd y Maer yn siambr Neuadd y Sir ar gost o £350.
   Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid talu amdano wedi i'r gwaith gael ei wneud ac y dylai'r Cyngor anfon anfoneb at Cambria am eu rhan hwy o'r gwaith. Eiliwyd hyn gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

Cof 91 / Hydref / 06 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins fod hwn yn gyfle i ddiweddaru hysbysfwrdd y Maer. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Richard Wallace. Argymhellwyd bod y Clerc yn cysylltu â Claudine Le'Corre. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55 pm.